

AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2010 - 2013



Taratwyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

South Wales  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru





# Rhagair Cadeirydd yr Awdurdod Tân a'r Prif Swyddog Tân



A handwritten signature in black ink that reads "Anthony Ernest".

**Anthony M. Ernest**  
Cadeirydd  
Awdurdod Tân ac  
Achub De Cymru

Mae'n bleser mawr gennym gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Rydym wedi cynhyrchu Cynllun i ddangos ein hymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg, ac i roi arwydd eglur i'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith o ran pa fath o wasanaeth i'w ddisgwyl gennym. Drwy adolygu ein Cynllun rydym yn dangos ein hymrwymiad parhaus tuag at yr iaith Gymraeg.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu gwasanaethau Cymraeg a/neu wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd; a sut byddwn yn delio ag ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg ym maes polisïau.

Mae'r Awdurdod yn falch iawn o'r camau mawr y mae wedi eu cymryd o ran sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, ac mae mwy o waith o'n blaenau wrth i ni ymdrechu i ennill ein safle fel sefydliad gwir ddwyieithog yn llygaid y cymunedau Cymraeg yr ydym yn eu gwasanaethu. Yn hynny o beth felly rydym yn gofyn am eich cymorth. Rydym yn eich annog i drafod a chysylltu gyda ni yn Gymraeg, er mwyn i ni allu cydweithio i wella'r gwasanaethau Gymraeg yr ydym yn eu cynnig ar hyn o bryd, ac annog gwasanaethau cyhoeddus eraill i wneud yr un fath.



A handwritten signature in black ink that reads "Andy Marles".

**Andy Marles**  
Prif Swyddog Tân  
Gwasanaeth Tân ac  
Achub De Cymru

Rydym wedi ffurfio partneriaethau a chyfeillgarwch gyda siaradwyr Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau Gymraeg eraill. Rydym wedi buddsoddi yn ein staff sy'n siarad Cymraeg drwy roi iddynt gymorth a hyfforddiant galwedigaethol er mwyn iddynt allu teimlo'n hyderus a chyfforddus wrth ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg; rydym hefyd wedi datblygu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i gynorthwyo pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sy'n dymuno dysgu'r iaith.

# Cynnwys

## 1 Cyflwyniad

1.1	Gwybodaeth Gefndirol	8
1.2	Amcanion	12
1.3	Ymrwymiad Corfforaethol	12

## 2. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

2.1	Polisiau a Mentrau Newydd	13
2.2	Darparu Gwasanaeth	14
2.3	Safonau Ansawdd	14

## 3. Ymwneud â'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith

3.1	Cyfathrebu'n Ysgrifenedig	15
3.2	Cyfathrebu dros y Ffôn	16
3.3	Cyfarfodydd Cyhoeddus	16
3.4	Cyfarfodydd	17
3.5	Cyfathrebu drwy ffyrdd eraill	17

## 4. Wyneb Cyhoeddus yr Awdurdod

4.1	Hunaniaeth Gorfforaethol	17
4.2	Cyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau	18
4.3	Arwyddion	18
4.4	Cyhoeddiadau	19
4.5	Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol	19
4.6	Datganiadau i'r Wasg	19
4.7	Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd	20
4.8	Hysbysiadau Cyhoeddus a Swyddogol	20
4.9	Hysbysiadau i Recriwtio Staff	20

## 5. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

5.1	Staffio	21
5.2	Dysgu Cymraeg	22
5.3	Recriwtio	23
5.4	Hyfforddiant Galwedigaethol	23
5.5	Trefniadau Gweinyddol	23
5.6	Caffael, gan gynnwys Gwasanaethau ar ran yr Awdurdod gan Drydydd Partïon	24
5.7	Gweithio mewn Partneriaeth	25
5.8	Monitro Gweithredu'r Cynllun	25
5.9	Cyhoeddi Gwybodaeth	25

## 6. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

## 7. Cwynion

## 8. Cyhoeddusrwydd

## Atodiad A - Amserlen ar gyfer Gweithredu Mesurau

Cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Gynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Tân ac Achub De Cymru o dan Adran 14 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar

## Datganiad

Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (y cyfeirir ato o hyn allan fel "yr Awdurdod") wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r ffordd y bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Gwybodaeth Gefndirol

1.1.1 Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu ardaloedd gweinyddol yr awdurdodau lleol canlynol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Dinas a Sir Caerdydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Cyngor Sir Fynwy  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Cyngor Bro Morgannwg

1.1.2 Mae poblogaeth breswyl yr awdurdodau cyfun hyn yn fwy na 1.4 miliwn o bobl mewn cymunedau amlddiwylliannol a thraddodiadol. Mae'r Gwasanaeth yn ymestyn dros ardal 1,085 milltir sgwâr, sy'n cynnwys dinasoedd, trefi mawr ac ardaloedd gwledig.

1.1.3 Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod proffil ieithyddol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu yn dangos yn eglur fod patrwm yn mynd am i fyny o ran niferoedd a chanran y siaradwyr Cymraeg a'r dysgwyr sy'n byw ac yn gweithio ynddi.

1.1.4 Yr Awdurdod yw'r corff rheoli sy'n gyfrifol am sicrhau y darperir gwasanaethau tân ac achub o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, a'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Hefyd, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Daw aelodau'r Awdurdod o blith cynrychiolwyr etholedig y deg awdurdod lleol sydd wedi'u henwi uchod. Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau trwy Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Gwasanaeth"). Prif swyddogaethau'r Gwasanaeth yw:

- Ymladd Tân
- Achub arbenigol a gwasanaethau dyngarol
- Diogelwch Tân yn yr amgylchedd adeiledig
- Lleihau peryglon i'r gymuned - gan gynnwys gwasanaethau addysg diogelwch tân i ysgolion, a helpu lleihau nifer y gwrthdrawiadau traffig
- Argyfyngau Sifil Posibl

1.1.5 Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tua 1900 o bobl, gan gynnwys Ymladdwyr Tân Llawn Amser, Ymladdwyr Tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser, staff yr Ystafell Rheoli Tân, a staff cymorth. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu o 50 gorsaf tân ac achub ar draws ardal De Cymru. Mae'r tîm rheoli a'r gwasanaethau cymorth wedi'u lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llantrisant, lleolir yr Ystafell Reoli ym Mhont-y-clun. Mae rhan fwyaf y gweithgaredd hyfforddiant yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth ym Mhorth Caerdydd.

1.1.6 Y Prif Swyddog Tân sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Cynllun Iaith Gymraeg, fodd bynnag mae'r cyfrifoldeb dros roi'r Cynllun ar waith yn ddyddiol yn gorwedd gyda phersonél y Gwasanaeth.

- 1.1.7 Mae'r wybodaeth ganlynol yn grynodeb byr o'r Cyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am feysydd gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth, gyda phob Cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheng flaen neu wasanaethau cymorth.

## Gweithrediadau a Lleihau Risg, Rheoli Tân ac Uned Rheoli Perfformiad

Yn dilyn ad-drefnu'r gwasanaeth ym mis Medi 2009, ffurfiwyd y Gyfarwyddiaeth Darparu Gwasanaeth.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Darparu Gwasanaeth newydd yn cynnwys pedair uned wahanol ac mae'n gweithredu o dan gyfarwyddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân. Dyma'r unedau:

Gweithrediadau  
Lleihau Risg  
Rheoli Tân  
Cynllunio Perfformiad

Mae cenhadaeth y Gyfarwyddiaeth yn syml:

***"Bydd Darparu Gwasanaeth yn darparu gwasanaeth rheng flaen proffesiynol trwy gyflawni beth sydd ei angen, pan fydd ei angen, er mwyn lleihau risg."***

Mae tîm arwain y Gyfarwyddiaeth wedi gosod pum maes ar gyfer blaenoriaethu ei gweithgareddau. Eu diben yw:

Lleihau Marwolaethau ac Anafiadau  
Lleihau Digwyddiadau Llosgi Bwriadol  
Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd  
Lleihau Effaith Amgylcheddol  
Cynyddu Diogelwch ein Staff

Tra bydd cynllunio ar draws yr adrannau yn canolbwyntio ar yr amcanion uchod, byddwn hefyd yn cynnal ein gallu i gefnogi'r ystod eang o amcanion corfforaethol sydd yn eu lle er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau wrth i'r gwasanaeth baratoi ar gyfer cwrdd â heriau'r dyfodol.

## Cynllunio, Datblygu a Chymorth

Mae'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Datblygu a Chymorth (CDC) yn darparu gwelliant gweithredol a gweithdrefnol ar draws holl swyddogaethau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae CDC yn darparu gwelliant trwy adolygu polisïau, arferion, fflyd ac offer cyfredol a thrwy sganio'r amgylchedd ein bwriad yw defnyddio technoleg wrth chwilio am welliant parhaus.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth ddwy adran wahanol, sydd â chysylltiadau agos, sef yr adran Rheoli Risg Gweithredol a'r adran Fflyd a Pheirianeg.

Mae'r adran Fflyd a Pheirianeg yn gyfrifol am reoli, gweinyddu a chynnal a chadw fflyd y Gwasanaeth o beiriannau gweithredol, cerbydau cymorth a pheiriannau ac offer arbenigol. Cyfrifoldeb yr adran yw sicrhau fod y fflyd yn gweithredu o fewn cwmpas y Rheoliadau Traffig Ffyrdd niferus sy'n berthnasol i gerbydau gwasanaeth tân ac achub. Mae adran Gweithdai yr adran yn darparu gwasanaeth gofal, cynnal a chadw ac atgyweirio cyfan ar gyfer y Gwasanaeth sy'n delio â chynnal a chadw a gwasanaethu, atgyweirio mecanyddol, atgyweirio difrod damweiniol, adnewyddu ac ailbeintio cyrff. Yn ychwanegol, mae'n gwasanaethu ac atgyweirio amrywiaeth o offer gweithredol. Er mwyn cefnogi gweithgareddau pedair awr ar hugain y sefydliad mae'r adran yn darparu system galwadau brys 24/7 i sicrhau nad yw argaeledd gweithredol yn cael ei gyfaddawdu.

Mae Rheoli Risg Gweithredol yn adran arbenigol sydd â nifer o dimau amrywiol â chyfrifoldebau o'i mewn. Mae'r adran yn rheoli Cudd-wybodaeth Gweithredol, Datblygiad Gweithredol ac Adolygiad Tactegol o bolisiau a gweithdrefnau gweithredol a'r tîm cyd-nerthu a chynllunio. Mae'r tîm Cydnerthu a Chynllunio yn sicrhau fod y Gwasanaeth yn cael ei gynrychioli ar strwythurau cydnerthu sifil De Cymru. Yn ychwanegol, mae'r adran Rheoli Risg Gweithredol yn ymgymryd â phrosiectau arbennig yn ymwneud â datblygu tactegau ac offer gweithredol. Mae'r swyddfa ddŵr a'r tîm cymorth logistaidd yn sicrhau fod darpariaeth ddigonol o ddŵr ar gyfer ymladd tân a'i fod ar gael ar draws De Cymru. Yn ychwanegol, maent yn darparu rheolaeth asedau hanfodol ar gyfer offer gweithredol. Mae'r tîm Offer Anadlu yn sicrhau fod offer hanfodol sy'n achub bywyd megis offer anadlu, offer adfywio meddygol a siwtiau sy'n dal nwy allan yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda a'u bod ar gael yn barod i bersonél gweithredol er mwyn diogelu cymunedau De Cymru.

Mae'r Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn datblygu polisi a strategaeth, monitro ac ymchwilio pob mater yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles personél y Gwasanaeth. Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch hefyd yn sicrhau fod datblygiad sefydliadol yn cydnabod ac yn ystyried deddfwriaeth sy'n benodol ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae ein tîm Iechyd a Diogelwch yn gweithio â phob Cyfarwyddiaeth drwy gysylltu materion Iechyd a Diogelwch ymarferol ag arferion gwaith i sicrhau agwedd gorfforaethol, gyson tuag at reoli Iechyd a Diogelwch ac felly yn sicrhau fod rhwymedigaethau moesol, cyfreithiol ac economaidd yn cael eu bodloni.

## Gwasanaethau Pobl

Mae swyddogaethau'r Gyfarwyddiaeth yn cwmpasu Rheoli Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu a Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol.

Mae Rheoli Adnoddau Dynol yn cynnwys Rheoli Absenoldeb, Polisi AD, Cyflogres a Phensiynau, Cysylltiadau Gweithwyr, Canolfannau Asesu a Datblygu a Recriwtio, y maent oll yn cael eu darparu o Bencadlys y Gwasanaeth Tân.

Mae Dysgu a Datblygu yn cynnwys Darparu Hyfforddiant, Datblygu Staff a Chymorth Hyfforddiant sy'n cael eu darparu o Bencadlys y Gwasanaeth Tân a Chanolfan Hyfforddiant Porth Caerdydd.

Mae'r Uned Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi'i lleoli ym Mharc Nantgarw lle mae'n rhannu cyfleuster Canolfan Iechyd modern ar y cyd â Chyngor Caerdydd a'i nod yw gwella iechyd a lles y holl bersonél.

## Cymorth Corfforaethol

Mae'r gyfarwyddiaeth yn cynnwys tair prif adran sy'n gyfrifol am waith o natur gorfforaethol sydd yn rhannu'n nifer o dimau arbenigol yn delio â'r meysydd canlynol:

- **Cymorth Busnes**

- Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân a Phwyllgorau
- Cymorth a Datblygiad Aelodau
- Datblygiad Cynaliadwy
- Rheoli Cyfleusterau a Chytundebau Corfforaethol
- Cyfreithiol
- Archwilio
- Rheoli Gwybodaeth, Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio
- Cymorth Gweinyddol
- Switsfwrdd a Derbynfa
- Cymorth Ysgrifenyddol
- Cwynion

- **Cyllid a Chaffael**

- Systemau Ariannol
- Rheolaeth Ariannol a Chyfrifeg (Refeniw, Cyfalaf a Grantiau)
- Rheolaeth Trysorlys
- Gwasanaethau'r Trysorlys
- Caffael
- Cytundebau a Phrynu
- Storfeydd

- **Gwasanaethau Eiddo a Phrosiectau Mawr**

- Cynnal a Chadw a Datblygu Eiddo
- Strategaeth Eiddo
- Rheoli Asedau
- Gwaith Prosiectau Mawr (gan gynnwys cyfalaf, refeniw, Cynllun Lleihau Risg ac effeithiolrwydd)

Mae rolau statudol y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Iaith Gymraeg hefyd yn dod o fewn y gyfarwyddiaeth hon.

## Cyfathrebu a Diwylliant

Arweiniodd adolygiad y prif swyddogion ym mis Medi 2009 at newid saith cyfarwyddiaeth yn bump a chyflwyno cyfarwyddiaeth newydd "Cyfathrebu a Diwylliant".

Mae dwy brif nod i'r gyfarwyddiaeth hon. Yn gyntaf, sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn bodoli yn yr ystyr dechnegol ac yn yr ystyr ehangach o gyfathrebu yn gyffredinol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn edrych yn fewnol ac yn allanol o ran cyfathrebu.

Yr ail nod yw creu diwylliant sy'n canolbwyntio fwy ar bobl ar gyfer y sefydliad, ymysg y staff yn fewnol ac yn allanol, er mwyn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar y dinesydd. Mae'r Gwasanaeth yn croesawu amrywiaeth eang a llawn fel bod pob gweithiwr yn teimlo balchder yn y sefydliad, yn mwynhau dod i'r gwaith ac yn trin ein dinasyddion mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion unigol. Bydd y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Diwylliant yn arwain y nod hwn ond mae cyfrifoldeb gan bob aelod o staff y Gwasanaeth i'w gyflawni.

## 1.2 Amcanion

Mae amcanion yr Awdurdod o ran yr iaith Gymraeg fel a ganlyn:

- Annog a hyrwyddo defnydd ac argaeledd yr iaith Gymraeg ar draws y Gwasanaeth.
- Galluogi pawb sy'n derbyn neu ddefnyddio gwasanaethau'r Awdurdod i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol.
- Galluogi safon o wasanaethau sydd yr un mor effeithiol a phroffesiynol yn y ddwy iaith, pryd bynnag a lle bynnag y bo'n ymarferol o fewn rheswm.
- Cydweithio â grwpiau cymunedol a sefydliadau partner er mwyn datblygu cyfleoedd pellach i hybu dwyieithrwydd yn y gymuned.
- Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau y cynhelir ac y gwellir ar safonau.

## 1.3 Ymrwymiad Corfforaethol

- 1.3.1 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau llwyddiant ei Gynllun Iaith Gymraeg, gan gydnabod yn llwyr bwysigrwydd rhoi dewis gwirioneddol ac ystyrion o ran iaith, wrth gyflwyno ei wasanaethau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cynnig dewis iaith yn gyson wrth ddatblygu cymunedau sy'n wirioneddol ddwyieithog ac yn cydnabod ei rôl ei hun o ran cefnogi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch dwyieithrwydd.
- 1.3.2 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu er mwyn cyflawni a chynnal y safonau sydd yn y Cynllun, ac mae wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel.
- 1.3.3 Mae cynnydd sylweddol yn parhau o ran datblygu diwylliant corfforaethol dwyieithog ymhlith y staff, drwy gynnal hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg, darparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith a chynnal gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.3.4 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall fod yn anodd darparu lefel gyson o ddewis iaith mewn rhai sefyllfaoedd, e.e. ymateb brys a rhai gwasanaethau technegol neu arbenigol lle bo amser yn ffactor mawr. Bwriad yr Awdurdod yw darparu gwasanaeth sydd mor gynhwysfawr ag y bo'n ymarferol yn yr amgylchiadau. Mae'r holl staff yn cael gwybod am y Cynllun, yr ymrwymadau sydd ynddo a'u cyfrifoldeb i fynd at y systemau, y gweithdrefnau a'r gwasanaethau sy'n bodoli i fodloni'r ymrwymadau hynny.

- 1.3.5 Byddwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y cyfeirir ato o hyn allan fel “y Bwrdd”) ynghylch unrhyw gynigion newydd a allai gael effaith ar Gynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod (y cyfeirir ato o hyn allan fel “y Cynllun”) neu a allai gael effaith ar Gynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadau eraill. Ni fydd Cynllun yr Awdurdod yn cael ei newid heb gytundeb y Bwrdd.

## 2 Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

### 2.1 Polisiau, Gweithdrefnau, Prosiectau a Mentrau Newydd

- 2.1.1 Pan fo’r Awdurdod yn cynllunio a chreu polisiau, gweithdrefnau, prosiectau neu fentrau newydd, bydd yn gyfrifoldeb ar y prif swyddog sydd ynghlwm wrth y gwaith i wneud asesiad effaith ar gydraddoldeb er mwyn ystyried effaith botensial y polisi, y weithdrefn, y prosiect neu’r fenter ar siaradwyr Cymraeg, dysgwyr neu’r agenda Gymraeg ehangach.
- 2.1.2 Caiff pob asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb sy’n cael ei gwblhau ei gyhoeddi ar Fewnwyd y Gwasanaeth er mwyn i staff allu rhannu syniadau a gwybodaeth ac er mwyn hwyluso arfer da ar draws y sefydliad.
- 2.1.3 Bydd pob polisi, gweithdrefn, prosiect a menter newydd yn cyd-fynd â’r Cynllun Iaith Gymraeg. Rhaid i unrhyw bolisi, gweithdrefn, prosiect neu fenter a gaiff ei lunio gan y Gwasanaeth beidio â thanseilio integriti Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.
- 2.1.4 Bydd yr Awdurdod yn defnyddio polisiau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau newydd i hyrwyddo a hwyluso defnydd o’r Gymraeg lle bynnag y bo modd ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu’r egwyddor o gydraddoldeb i’r Gymraeg a’r Saesneg ar bob cyfle.
- 2.1.5 Mae gan y Cynllun statws Dogfen Polisi a Gweithdrefn Weithredol 46 ac, fel y cyfryw, mae rhaid i bob aelod o staff gadw at a chydymffurfio â chynnwys y Cynllun. Mae’r Cynllun ar gael i staff ar Fewnwyd y Gwasanaeth, er mwyn i staff allu cyfeirio ato’n hawdd. Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg yn rhoi arweiniad a chynghor ar roi’r Cynllun ar waith i staff ar bob lefel o’r Gwasanaeth.
- 2.1.6 Hysbysir y staff am rwymedigaeth yr Awdurdod i gadw at ei Gynllun Iaith Gymraeg wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i’r cyhoedd, drwy sesiynau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg a thrwy sesiynau hyfforddiant wedi’u teilwra ar gyfer rheolwyr ynghylch ystyried yr iaith Gymraeg wrth gynllunio busnes. Bydd pob unigolyn, sydd yn ymwneud â’r broses o lunio polisiau, yn ystyried agweddau perthnasol y Cynllun wrth ddechrau cynllunio a byddant yn ymwybodol o’r angen i gynnig a darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yn Gymraeg. Bydd staff newydd yn derbyn gwybodaeth am brif bwytiau’r Cynllun wrth iddynt ymuno â’r Gwasanaeth, ar y cwrs sefydlu.
- 2.1.7 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y caiff yr egwyddorion, y safonau a’r mesurau y sonnir amdanynt yn y Cynllun eu cymhwyso i bolisiau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau newydd pan gânt eu gweithredu.

## 2.2 Darparu Gwasanaeth

- 2.2.1 Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd o dan reolaeth y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân ac aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli (UDR). Mae pob aelod o'r UDR yn gyfrifol naill ai am wasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd neu am wasanaethau cymorth.
- 2.2.2 Caiff ystyriaethau o'r Gymraeg eu prif ffrydio i fewn i gynlluniau busnes ar bob lefel o'r sefydliad fel rhan o'r cam cynllunio ar gyfer darparu gwasanaeth. Yn ystod y broses craffu, mae'r uwch reolwyr yn gwirio i sicrhau fod cyfeiriadau addas a phenodol wedi'u gwneud i gefnogi gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod, yn hytrach na datganiadau cyffredinol o gefnogaeth. Lle bo'n addas, mae targedau ar gyfer gwelliant penodol o fewn cyfarwyddiaeth, adran neu ardal gorsaf yn cael eu gosod.
- 2.2.3 Ffurfiwyd Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg o blith y staff sydd yn siarad neu'n dysgu Cymraeg, er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg, nes bod y bwlch sgiliau wedi'i gau. Mae pob aelod o'r Tîm wedi cytuno i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau Cymraeg lle nad oes staff dwyieithog mewn maes, adran neu orsaf benodol ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cytundebau eilaidd i staff Cymraeg eu hiaith sy'n cynorthwyo i gefnogi sgiliau mewn meysydd mwy arbenigol, e.e. hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Mae Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd fel y gall siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a staff sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, o bob lefel yn y Gwasanaeth, gyfrannu at gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.
- 2.2.4 Mae cyfeirlyfr o aelodau Tîm Cefnogi Sgiliau'r Iaith Gymraeg yn ymddangos ar Fewnwyd y Gwasanaeth. Bydd staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi gwybod i'r cyhoedd am aelodau staff sydd yn siarad Cymraeg, lle bo hynny'n briodol. Caiff y wybodaeth ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd gan Swyddog yr Iaith Gymraeg.
- 2.2.5 Yn y pen draw, bydd rheolwyr lleol yn gyfrifol am sicrhau y caiff holl ofynion y Cynllun eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan eu hadrannau a'r gwaith a wneir ar ran yr Awdurdod gan unigolion, partneriaethau neu gyrrff eraill.
- 2.2.6 Os digwydd na chaiff gwasanaethau eu darparu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod ond y cânt eu darparu gan asiantaethau neu gyrrff sydd â contract gyda'r Awdurdod, defnyddir geiriad priodol mewn contractau i sicrhau y cyflwynir y gwasanaethau hyn yn unol â'r Cynllun. [Gweler 5.6. Gwasanaethau ar Ran yr Awdurdod gan Barfion Eraill.

## 2.3 Safonau Ansawdd

- 2.3.1 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd yr un mor uchel drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, ym mhob agwedd ar ei waith, yn unol â'r ymrwymadau a roddir yn y Cynllun hwn.
- 2.3.2 Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn dal dyfarniad y Nod Siarter am ragoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid. I ennill y wobr hon, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ddangos ei fod yn ystyried anghenion ieithyddol ei ddefnyddwyr gwasanaeth.

- 2.3.3 Mae'r Gwasanaeth yn croesawu adborth wrth aelodau'r cyhoedd am sut y gall wella ei berfformiad, gan gynnwys darparu gwasanaethau yn Gymraeg. O dro i dro, mae'r Gwasanaeth yn cynnal ymarferion cwsmer cudd neu wiriadau hap er mwyn asesu a yw safonau ansawdd yn cael eu cynnal.
- 2.3.4 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda sefydliadau ac unigolion Cymraeg eu hiaith er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth o wasanaeth.

### 3. Ymwneud â'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith

#### 3.1 Cyfathrebu'n Ysgrifenedig

- 3.1.1 Mae croeso i'r cyhoedd ymwneud â'r Awdurdod yn ysgrifenedig naill yn Gymraeg neu yn Saesneg. Atebir gohebiaeth yn yr iaith y cafodd ei derbyn. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi i ddefnyddiwr y gwasanaeth.
- 3.1.2 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd yr amser ymateb yr un fath wrth ymateb i lythyron, negeseuon ffacs neu negeseuon e-bost Cymraeg neu Saesneg, h.y. o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr ohebiaeth wreiddiol.
- 3.1.3 Lle bo'r Awdurdod yn ymwybodol ei bod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad ohebu yn Gymraeg bydd y dymuniad hwnnw'n cael ei barchu a'i fodloni. Mae'r Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cynnal cronfa ddata ganolog o unigolion, sefydliadau neu grwpiau sydd wedi nodi ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg. Mae'r gronfa ddata hon ar gael i staff drwy Fewnrwyd y Gwasanaeth. Mae gofyn i staff sy'n dechrau gohebiaeth ag unrhyw unigolyn neu grŵp edrych ar y gronfa ddata cyn anfon gohebiaeth. Lle nad yw dewis iaith unigolyn, sefydliad neu grŵp yn hysbys, bydd yr ohebiaeth yn cael ei hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformat sy'n hawdd cael mynediad ato.
- 3.1.4 Os oes angen gohebiaeth ddilynol ar ôl cyfarfod, cyfweiliad neu sgwrs ar y ffôn yn Gymraeg, cynigir i'r cwsmer gael yr ohebiaeth honno yn Gymraeg yn unig, yn Gymraeg a Saesneg neu yn Saesneg yn unig, yn ôl ei ddewis personol.
- 3.1.5 Rhoddwyd arweiniad i'r staff ar sut i fodloni ymrwymiad yr Awdurdod i gyfathrebu â'r cyhoedd yn Gymraeg, gan gynnwys manylion am y gwasanaeth cyfieithu mewnol a sut i gael mynediad ato.
- 3.1.6 Bydd pob rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ei adran yn gwybod am yr ymrwymadau hyn a'r trefniadau a wnaed i'w gweithredu.
- 3.1.7 Mae datganiad safonol, ar ffurf troednodyn, wedi cael ei gynnwys ar bapur pennawd a slipiau cyfarch yr Awdurdod yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg.
- 3.1.8 Bydd llythyron a chylchlythyrau safonol sydd newydd eu creu, ac sydd ar gyfer y cyhoedd, yn cael eu dosbarthu'n ddwyieithog fel mater o drefn.

## 3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- 3.2.1 Mae croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ymwneud â'r Awdurdod dros y ffôn. Cynigir dewis iaith i gwsmeriaid gan staff sy'n gweithio ar y dderbynyfa ym Mhencadlys y Gwasanaeth. Os digwydd nad yw staff parhaol y dderbynyfa ar gael oherwydd hyfforddiant, salwch, gwyliau blynyddol ac ati, bydd cymorth ar gyfer y dyletswyddau switsfwrdd a derbynyfa yn cael ei ddarparu gan siaradwyr Gymraeg a dysgwyr o fewn yr Uned Cymorth Busnes lle bo modd. Mae holl staff yr Uned Cymorth Busnes y byddai efallai angen iddynt roi cymorth gyda dyletswyddau'r dderbynyfa ond nad ydynt yn siarad Gymraeg yn cael hyfforddiant ar sut i ddelio â galwad neu ymweliad gan siaradwr Gymraeg heb orfod troi at y Saesneg.
- 3.2.2 Os yw galwr wedi ymateb yn Gymraeg i'r cyfarchiad dwyieithog cychwynnol gan staff y switsfwrdd ac wedi dangos ei fod/bod yn dymuno parhau yn Gymraeg, caiff ei gyfeirio/chyfeirio at aelod staff o'r Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg yn yr adran, neu'r ardal briodol, lle y bo modd.
- 3.2.3 Os nad oes siaradwr Gymraeg ar gael, dywedir wrth y galwr y bydd aelod o'r Tîm Gymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo modd neu y gallant ddewis i barhau'r alwad yn Saesneg.
- 3.2.4 Ar hyn o bryd nid yw'r gwasanaeth 999 bob amser ar gael yn Gymraeg oherwydd bod nifer annigonol o ddeiliaid y swyddi yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar y lefel briodol yn yr Ystafell Reoli Tân. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gosod y nod o gynyddu nifer y staff sydd â'r sgiliau iaith priodol i 8 swydd i gyd yn rhai lle bo'r Gymraeg yn hanfodol erbyn 2013.
- 3.2.5 Yn y cyfamser, mae cynlluniau yn bodoli i ymdrin â galwad frys lle bo'r siaradwr yn siarad Gymraeg yn unig.
- 3.2.6 Mae cyfarchion peiriant ateb nad ydynt yn rhai brys, e.e. yn ystod gwyliau cyhoeddus, penwythnosau, ac ati yn ddwyieithog, gan wahodd y galwr i adael neges yn y naill iaith neu'r llall.
- 3.2.7 Mae aelodau'r Tîm Cymorth Sgiliau Iaith Gymraeg i roi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb eu ffôn personol neu alwadau sy'n cael eu derbyn drwy'r switsfwrdd.

## 3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 3.3.1 Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu Saesneg wrth gyfrannu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan yr Awdurdod. Trefnir cyfarfodydd cyhoeddus ar adegau gan yr Awdurdod ar gyfer ymgynghori neu at ddibenion cyfreithiol a dibenion eraill.
- 3.3.2 Wrth hysbysu ynghylch cyfarfodydd o'r fath, perchir dewis y rhai sy'n mynychu i siarad Gymraeg neu Saesneg a darperir y cyfleusterau cyfieithu priodol. Ar yr adeg hon, rhoddir gwybod i'r cyhoedd y cânt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod os dyna yw eu dymuniad, ac y bydd angen iddynt hysbysu'r Awdurdod o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod, am eu bwriad i siarad Gymraeg er mwyn darparu offer cyfieithu ar y pryd a chyfieithydd.

- 3.3.3 Bydd staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus yn cysylltu â'r Swyddog Iaith Gymraeg i gael arweiniad ynghylch a ddylai aelod o'r Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg fod yn bresennol ai peidio i dderbyn a chroesawu aelodau o'r cyhoedd ac i ymdrin ag ymholiadau cyffredinol.

## 3.4 Cyfarfodydd Eraill

- 3.4.1 Wrth iddynt wneud eu gwaith, mae'r staff yn cynnal llawer o gyfarfodydd yn ogystal â'r rheiny sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau personol gan y cyhoedd â gweithleoedd, ymweliadau proffesiynol gan staff, cyfweiliadau preifat, cyfarfodydd ar safleoedd a chyfarfodydd eraill wyneb yn wyneb. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw anfantais i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg ar achlysuron o'r fath, os yw'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen ymlaen llaw, gwneir y trefniadau priodol i fodloni'r dewis iaith. Os nad yw'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'r dymuniad i ddefnyddio Cymraeg ymlaen llaw, yna cynigir y dewis i'r unigolyn o siarad ag aelod o'r Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg nad yw efallai yn arbenigwr ym maes yr ymholiad neu barhau'r drafodaeth ag arbenigwr Saesneg ei iaith.
- 3.4.2 Defnyddir aelodau'r Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd eraill lle bo'r angen i wneud hynny wedi'i nodi ymlaen llaw. Lle bo'r drafodaeth o natur dechnegol, neu fod angen ei chynnal gydag aelod penodol o staff na all siarad Cymraeg, efallai y bydd yn rhaid cynnal y cyfarfod yn Saesneg. Caiff unrhyw wybodaeth ddilydol ar y mater ei hanfon ymlaen yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl dewis personol defnyddiwr y gwasanaeth.
- 3.4.3 Caiff unrhyw ymweliadau ag ysgolion, cartrefi, busnesau a grwpiau cymunedol a gynllunnir ymlaen llaw eu cynnig naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ar gyfer ymweliadau neilltuol, cynigir dewis iaith yn ystod y cyswllt cyntaf. Lle nodwyd bod risg eithriadol i safle, efallai na fydd yn bosibl cynnig y dewis iaith gan y gallai oedi arwain at ddifrod i eiddo neu farwolaeth.
- 3.4.4 Mae canllawiau gweithredol ar sefydlu dewis iaith wedi'u dosbarthu i'r staff.

## 3.5 Cyfathrebu drwy Ffyrdd Eraill

- 3.5.1 Pan fo'r Awdurdod yn cyfathrebu â'r cyhoedd drwy ffyrdd eraill fel cyfathrebu cyfrifiadurol, systemau sain cyhoeddus neu hysbysebu radio, caiff y wybodaeth ei darparu'n ddwyieithog.
- 3.5.2 Darperir gwybodaeth yn y Gymraeg a Saesneg ar wefan ddwyieithog y Gwasanaeth, gyda'r opsiwn i newid rhwng y ddwy iaith yn hawdd. Caiff y wybodaeth statig ei diweddarau neu'i llwytho i fyny ar yr un pryd yn y Gymraeg a Saesneg. Cyfrifoldeb yr Adran neu'r unigolyn sydd yn darparu'r wybodaeth wreiddiol fydd cael cyfieithiad Cymraeg o'r deunydd cyn ei ychwanegu at y wefan.
- 3.5.3 Mewn sefyllfaoedd o risg mawr, lle bo amser o'r pwys mwyaf neu mewn argyfwng, efallai na fydd modd cyfathrebu'n ddwyieithog oherwydd rhesymau diogelwch cyhoeddus.

## 4. Wyneb Cyhoeddus yr Awdurdod

### 4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog, gan gynnwys enw, cyfeiriad, logo a hunaniaeth weledol yr Awdurdod, yn ogystal â gwybodaeth arall a ddefnyddir ar ddeunyddiau a nwyddau.
- 4.1.2 Mae'r teitl a'r wybodaeth safonol sy'n cyd-fynd, ar ddeunyddiau argraffedig fel penawdau llythyron, slipiau cyfarch, taflenni blaen ffacs, cardiau busnes, cardiau gollwng, cardiau cydnabod a deunyddiau argraffedig eraill, yn cynnwys arwyddion ar gerbydau ac ar adeiladau, yn ddwyieithog.
- 4.1.3 Bydd enw'r sefydliad yn ymddangos yn y ddwy iaith ar bob cerbyd sy'n perthyn i'r Gwasanaeth. Ym mwyafrif yr achosion, bydd y Gymraeg yn ymddangos ar un ochr i'r cerbyd a'r Saesneg ar y llall. Bydd unrhyw eiriad arall sy'n cael ei arddangos ar gerbydau'r Gwasanaeth yn ddwyieithog, Bydd y ddwy iaith yn gydradd o ran maint a fformat.
- 4.1.4 Bydd unrhyw eiriad ar wisgoedd ffurfiol yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn gydradd o ran maint a fformat.
- 4.1.5 Rhoddir arweiniad i staff ar ddefnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, ac i ddylunwyr ac eraill sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu deunyddiau a nwyddau, er mwyn sicrhau cysondeb.
- 4.1.6 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg.

### 4.2 Cyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau

- 4.2.1 Yn hanesyddol mae aelodau'r Awdurdod wedi dewis cynnal eu cyfarfodydd drwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag, mae croeso i aelodau gyfrannu at y cyfarfodydd hyn yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Tra bo cyfarfodydd yr Awdurdod yn gyffredinol agored i'r cyhoedd, gellir ond gwneud cyfraniadau uniongyrchol i'r cyfarfodydd wedi cael gwahoddiad gan yr Awdurdod i wneud hynny. Lle bo'r cyhoedd wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at gyfarfodydd yr Awdurdod, mae modd iddynt wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis personol. Os yw'n fwiad gan unigolyn neu grŵp ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu un o'i bwyllgorau, dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw, os oes modd, o 10 diwrnod gwaith o leiaf, er mwyn i gyfleusterau cyfieithu gael eu trefnu.

### 4.3 Arwyddion

- 4.3.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod darparu arwyddion dwyieithog yn ffordd gadarnhaol a gweledol o ddangos ei ymroddiad i'r iaith Gymraeg. Bydd rhaglen i osod arwyddion yn lle'r rhai uniaith presennol yn cael ei rhoi ar waith yn ystod cyfnod 2010 – 2013.
- 4.3.2 Bydd pob arwydd mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn adeiladau'r Awdurdod, sy'n cael eu codi am y tro cyntaf neu'n disodli arwyddion blaenorol, yn ddwyieithog neu'n ddarluniadol.

- 4.3.3 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.3.4 Lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 4.3.5 Mae arweiniad wedi cael ei ddsbarthu i staff sy'n ymwneud â darparu arwyddion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun a chysondeb ar draws y sefydliad.

## 4.4 Cyhoeddiadau

- 4.4.1 Pan fo'r Awdurdod yn cyhoeddi deunyddiau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, yr arfer safonol fydd gwneud hynny'n ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith wedi'u hymgorffori mewn un ddogfen.
- 4.4.2 Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i beidio â chyhoeddi dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân oni bai ei fod yn hollol angenrheidiol. Lle mae'n rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy yn cynnwys datganiad sy'n egluro bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall. Bydd ansawdd y ddwy fersiwn yn gydradd, cânt eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd yr un mor hawdd i gael y naill neu'r llall. Pan godir tâl, bydd yr un fath ni waeth pa fersiwn sydd ei hangen.
- 4.4.3 Caiff dogfennau sy'n dechnegol fanwl, yn ddibynnol ar amser neu nad ydynt ar gael i aelodau'r cyhoedd, eu barnu yn ôl eu teilyngdod unigol ynglŷn ag a ydynt yn addas i'w cyfieithu i'r Gymraeg ai peidio. Defnyddir system sgorio yn broses asesu risg i bennu blaenoriaeth ar gyfer cyfieithu'r dogfennau hyn. Mae copi o'r system sgorio hon ar gael ar gais.
- 4.4.4 Wrth sefydlu blaenoriaethau ar gyfer cyfieithu dogfennau, prif ystyriaeth yr Awdurdod fydd natur y gynulleidfa yr anelir ati.
- 4.4.5 Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael arweiniad ysgrifenedig ar ddylunio cyhoeddiadau dwyieithog fel rhan o'r broses dendro.

## 4.5 Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol

- 4.5.1 Lle bo'r Awdurdod yn cynhyrchu ffurflenni a deunyddiau esboniadol ar gyfer y cyhoedd, cânt eu cynhyrchu'n ddwyieithog lle bo modd ac mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân mewn achosion eithriadol. Lle mae'n rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cynnwys datganiad bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall hefyd. Caiff y ddwy fersiwn eu cyhoeddi ar yr un pryd, byddant yr un mor hygyrch a chant eu dosbarthu yn ôl dewis iaith defnyddwyr y gwasanaeth.
- 4.5.2 Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg a'r Adran Dylunio ac Argraffu yn darparu canllawiau i staff ac eraill sydd ynghlwm wrth gynllunio a chynhyrchu ffurflenni a deunyddiau esboniadol.

## 4.6 Datganiadau i'r Wasg

- 4.6.1 Bydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog pan fo amser yn caniatáu hynny ac yn unol â dewis iaith y sefydliad cyfryngau neu gyhoeddiad sy'n eu derbyn. Bydd datganiadau i'r wasg i gyhoeddiadau Cymraeg fel Golwg a'r Cymro yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig.
- 4.6.2 Gwneir trefniadau i aelod o staff Cymraeg ei iaith/hiaith fod ar gael ar gyfer cyfweiliadau â'r cyfryngau lle bo modd.

## 4.7 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

- 4.7.1 Lle bo'r Awdurdod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau a'i weithgareddau yng Nghymru drwy arddangosfeydd, arddangosiadau a chyflwyniadau parhaol neu dros dro, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Bydd yr aelod staff sy'n gyfrifol am drefnu'r arddangosfa, yr arddangosiad neu'r cyflwyniad yn ymgynghori â'r Swyddog Iaith Gymraeg ynglyn â'r gofyniad i aelod o staff Cymraeg ei iaith/hiaith fod yn bresennol yn y man cyflwyno.
- 4.7.2 Pan fo'r Awdurdod yn rhoi caniatâd i sefydliadau eraill drefnu arddangosfeydd cyhoeddus ar ei safleoedd, byddant yn cael eu hysbysu am y Cynllun hwn a gofynnir iddynt ddefnyddio deunydd dwyieithog.
- 4.7.3 Os yw'r Awdurdod yn cynnal ymgyrch hysbysebu neu hyrwyddo yng Nghymru drwy'r wasg, y teledu, radio, sinema, posteri, byrddau hysbysebu, negeseuon electronig neu systemau sain cyhoeddus, bydd yn defnyddio'r ddwy iaith yn y modd sydd fwyaf priodol i'r dull cyfathrebu sydd i'w ddefnyddio. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i linellau cymorth dros y ffôn a gwasanaethau gwybodaeth dros y ffôn.
- 4.7.4 Bydd arolygon neu ymchwil i'r farchnad gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd ar gyfer ymholi ac ymateb.
- 4.7.5 Bydd staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a chynnal ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu ymchwil i'r farchnad yn cael gwybod am ofynion y Cynllun, a rhoddir canllawiau iddynt ar ei weithredu gan Swyddog yr Iaith Gymraeg.
- 4.7.6 Pan ymwelir ag ysgolion, clybiau ieuentid a chymdeithasau cyfrwng Cymraeg, caiff deunyddiau eu cyflwyno yn eu dewis iaith (ieithoedd). Bydd staff sy'n ymweld ag ysgolion, colegau a manau eraill yn achlysurol neu'n rheolaidd er mwyn rhoi addysg diogelwch cymunedol yn sicrhau bod cyrff neu grwpiau o'r fath yn ymwybodol bod gwasanaethau o'r math hwn ar gael yn Gymraeg. Rhaid i aelodau staff dwyieithog sy'n ymweld ag ysgolion/arddangosfeydd cyhoeddus/digwyddiadau arbennig wisgo bathodynnew sy'n dangos eu bod yn ddwyieithog.

## 4.8 Hysbysiadau Cyhoeddus a Swyddogol

- 4.8.1 Mae'r holl hysbysiadau cyhoeddus a swyddogol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

## 4.9 Hysbysebu i Recriwtio Staff

- 4.9.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd hysbysebu i recriwtio fel cyfrwng hyrwyddo ei hun yn gyflogwr dwyieithog a hefyd i ddenu staff â sgiliau dwyieithog.
- 4.9.2 Bydd yr holl hysbysebion recriwtio allanol yn ddwyieithog fel mater o drefn. Bydd swyddi sydd wedi'u disgrifio yn rhai lle mae Cymraeg yn hanfodol yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig yn ôl lefel y Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer y swydd sy'n cael ei hysbysebu. Lle y bo'n briodol, bydd troednodyn esboniadol yn Saesneg, "This is an advertisement for the post of ..... for which the ability to communicate through the medium of Welsh is essential." Bydd hysbysebion a roddir mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.
- 4.9.3 Mae'r Awdurdod yn gwerthfawrogi ac yn mynd ati i annog ceisiadau gan y rheiny â sgiliau iaith Gymraeg, gan fod y grŵp hwn wedi'i dangynrychioli yn y sefydliad ar hyn o bryd. Er mwyn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg y staff, mae gan yr Awdurdod bolisi i dargedu oedolion ifanc sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg ond nad ydynt eto wedi penderfynu'n derfynol ynghylch gyrfu. Fel gydag unrhyw grwpiau eraill a dangynrychiolir ymhlith ei staff, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ddefnyddio cynlluniau a gaiff eu caniatáu yn ôl y ddeddfwriaeth, i ddenu pobl o'r grwpiau hyn i wneud cais am swyddi yn y sefydliad.

## 5. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

### 5.1 Staffio

- 5.1.1 Datblygwyd Strategaeth Sgiliau Iaith er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i gynllunio ar gyfer recriwtio yn y dyfodol neu hyfforddi staff gyda'r sgiliau iaith angenrheidiol er mwyn gallu cynnig ei holl wasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.
- 5.1.2 Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith yn darparu mecanwaith i'r Awdurdod o ran canfod lefel a lleoliad sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad, a hefyd yn hwyluso rheolaeth a defnydd effeithiol o'r sgiliau hynny. Nodwyd bylchau o ran sgiliau mewn rhai meysydd ac mae'r Awdurdod wedi datblygu'r Tîm Cefnogi Sgiliau Iaith Gymraeg i bontio'r bylchau hynny yn y tymor byr a'r tymor canol. [Gweler 2.2.4]
- 5.1.3 Mae'r Awdurdod yn ymdrechu'n barhaus i roi gwasanaethau dwyieithog ar waith yn llawn ar draws pob ardal busnes, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan staff yn y gweithle. Gyda'r nodau hyn mewn golwg, mae gan yr Awdurdod strategaeth ddeublyg yn ei lle er mwyn diogelu'r sgiliau iaith angenrheidiol ymysg ei staff. Mae'r strategaeth ddeublyg yn ddull hir dymor o gau'r bwlc sgiliau sydd ar hyn o bryd yn bodoli rhwng ystod y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a nifer y staff sydd ar gael ei ddarparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth yn annog ceisiadau am gyflogaeth yn rhagweithiol oddi wrth ymgeiswyr sydd eisoes â sgiliau iaith Gymraeg, fel rhan o'i bolisi recriwtio, yn ychwanegol i gynnig cyfleoedd ar gyfer staff wedi'u cyflogi'n gyfredol i ddysgu Cymraeg ar lefel mynediad, neu yn uwch, neu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg cyfredol.

- 5.1.4 Mae'r strategaeth yn adlewyrchu penderfyniad yr Awdurdod i ddynodi rhai swyddi sy'n ymwneud â'r cyhoedd fel Cymraeg yn hanfodol a'r holl swyddi eraill fel Cymraeg yn ddymunol ar y disgrifiadau swydd. Lle bo staff ar hyn o bryd mewn swyddi Cymraeg hanfodol ac nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, byddant yn cael cynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg un ai o fewn oriau gwaith neu yn ystod eu hamser eu hunain, yn ôl eu dewis personol. Bydd yr Awdurdod yn talu am gost yr hyfforddiant. Pan fydd swydd Cymraeg hanfodol yn dod yn wag, gwneir pob ymdrech i recriwtio unigolyn sydd â'r sgiliau ieithyddol sy'n berthnasol i'r disgrifiad swydd.
- 5.1.5 Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynyddu a chynnal nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg ac mae wedi gosod y nod parhaus i nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyflogir gan y sefydliad adlewyrchu canran gyfartalog y deg awdurdod unedol y mae yn eu gwasanaethu.
- 5.1.6 Bydd rheolwyr, trwy drafodaeth â Phennaeth Adnoddau Dynol a Swyddog yr Iaith Gymraeg, yn parhau i nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol a byddant yn llunio disgrifiadau swydd a manylebau'r person yn y dyfodol yn unol â hyn. Gellir diffinio'r gofyniad Cymraeg hanfodol fel rhan o wasanaeth neu dîm, yn hytrach na bod ynghlwm wrth swydd benodol.
- 5.1.7 Bydd pob penodiad yn cael ei wneud yn ôl teilyngdod ac yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth gyflogi.
- 5.1.8 Rhaid i'r holl staff sy'n gyfrifol am ysgrifennu neu werthuso disgrifiadau swydd a manylebau'r person, a rheolwyr adrannol, sicrhau y glynir wrth y Strategaeth Sgiliau Iaith wrth hysbysebu am neu benodi staff newydd, wrth drosglwyddo staff rhwng timau, wrth ail-werthuso disgrifiadau swydd a manylebau'r person, neu pan gynhelir arfarniad staff.

## 52 Dysgu Cymraeg

- 5.2.1 Bydd yr Awdurdod yn annog ac yn cefnogi aelodau'r staff ac Aelodau Etholedig i ddysgu Cymraeg neu wella ar eu Cymraeg. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer aelodau staff sydd mewn cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd, fel mater o flaenoriaeth.
- 5.2.2 Mae'r Awdurdod wedi datblygu polisi hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'i Strategaeth Sgiliau iaith. Cefnogir staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg presennol o fewn oriau gwaith arferol neu yn eu hamser eu hun. Blaenoriaethir aelodau staff sy'n mynegi diddordeb mewn derbyn yr hyfforddiant yn ôl faint o gyswllt y maent yn eu cael â'r cyhoedd yn eu rôl.
- 5.2.3 Disgwylir i reolwyr gynllunio i staff sy'n mynychu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg fod i ffwrdd o'u gweithleoedd i fynychu eu gwersi, yn amodol ar alwadau'r Gwasanaeth. Ni ofynnir i ddysgwyr wneud gwaith arferol neu fynychu cyfarfodydd yn ystod amser y wers ac ni wneir iddynt deimlo'n anghyffyrddus am adael eu gweithle i fynychu gwersi.
- 5.2.4 Gofynnir i ddysgwyr ddangos cymwyseddau ar wahanol lefelau'r dysgu a gofynnir iddynt ddangos ymrwymiad parhaus i'r dysgu er mwyn aros a symud ymlaen ar y rhaglen hyfforddi sgiliau iaith.

- 5.2.5 Bydd yr Awdurdod hefyd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg sydd wedi mynegi diddordeb mewn diweddarau eu sgiliau cyn teimlo'n ddigon cyffyrddus i'w defnyddio yn y gweithle. Bydd y siaradwr Cymraeg, ei reolwr llinell a Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cytuno ar anghenion hyfforddi'r unigolyn ac yn eu symud yn eu blaenau trwy Arolygiad Datblygiad Personol yr unigolyn.
- 5.2.6 Arolygir y ddarpariaeth hyfforddiant yn barhaus gan Swyddog yr Iaith Gymraeg a'r Pennaeth Hyfforddi a chaiff blaenoriaethau eu hailasesu os bydd angen.
- 5.2.7 Gofynnir i'r holl staff annog staff y mae'n hysbys eu bod yn dysgu Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- 5.2.8 Bydd copïau o "Cysgliad", y feddalwedd gwirio sillafu a geiriadur Cymraeg, ar gael i'r staff sy'n gyfrifol am lunio gohebiaeth neu ddogfennau eu hunain yn Gymraeg.

### 5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Mae'r Awdurdod yn awyddus i recriwtio unigolion sydd â sgiliau Cymraeg eisoes, ac mae wedi ymrwmo i sicrhau na fydd ymgeiswyr y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt, o dan unrhyw anfantais o ganlyniad i'n prosesau recriwtio.
- 5.3.2 Caiff gallu ieithyddol ei ystyried yn un o lawer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff. Lle bo angen lefel o sgil ieithyddol ar gyfer swydd arbennig, caiff hyn ei nodi yn eglur ar fanyleb y person. Mae dogfen ganllaw ar gyfer rheolwyr wedi'i chynhyrchu ynghylch pa lefel o sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r swyddi sydd wedi'u dynodi yn Gymraeg yn hanfodol o fewn y Gwasanaeth.
- 5.3.3 Yn ystod y broses ddethol, rhoddir ystyriaeth i ddwyieithrwydd fel sgil y byddid yn dymuno ei gael yn unol â nodau ac amcanion corfforaethol y sefydliad. Mae system sgorio o ran sgiliau iaith Gymraeg wedi'i dyfeisio a'i rhoi ar waith fel y bydd panelau dewis yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd fel sgil anodd ei ddysgu yn erbyn sgiliau eraill y byddid yn dymuno eu cael y gellir eu dysgu'n haws neu'n gyflymach.
- 5.3.4 Gwneir bob penodiad yn ôl teilyngdod ac yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal. Yn y lle cyntaf, bydd rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fodloni'r holl feini prawf hanfodol.
- 5.3.5 Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i ddatblygu strategaeth ar gyfer denu ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhan o'i agenda ehangach ar gydraddoldeb. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys elfen iaith Gymraeg.

### 5.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 5.4.1 Caiff cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol iaith Gymraeg eu datblygu drwy'r broses Adolygu Datblygiad Personol. Hefyd, o dro i dro mae'r Gwasanaeth yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant rôl benodol er mwyn galluogi i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddarparu pecynnau addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.4.2 Lle nodir angen am hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso'r dasg o weithredu'r Cynllun ac y gellir darparu hyfforddiant addas, caiff ei gefnogi, yn amodol ar gyfyngiadau ariannol, yn unol â gofynion y Gwasanaeth.

- 5.4.3 Bydd y ddarpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau ac arbenigeddau penodol, fel prosesu geiriau, cyfieithu, sgiliau'r cyfryngau a dyletswyddau derbynfia.
- 5.4.4 Datblygwyd nifer o staff sy'n medru'r Gymraeg, i ymgymryd â swyddogaethau eilaidd yn y sefydliad yn hyfforddwyr sgiliau iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

## 5.5 Trefniadau Gweinyddol

- 5.5.1 Y Prif Swyddog Tân sy'n gyfrifol am sicrhau y gweithredir y Cynllun ar draws yr holl sefydliad. Rheolwyr unigol fydd â'r cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun yn eu hardaloedd gwasanaeth.
- 5.5.2 Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg, ar y cyd â'r uwch reolwyr, yn sicrhau bod gweithredu'r Cynllun yn cael ei gydgyssylltu gan sicrhau cysondeb o ran arferion ac y caiff ei adolygu'n barhaus.
- 5.5.3 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau yr hysbysir yr holl aelodau staff, ymgynghoŵwyr, dylunwyr, cyhoeddwr ac unrhyw drydydd partïon neu sefydliadau partner eraill am eu cyfrifoldebau drwy ddarparu taflen sy'n cynnwys canllawiau ynglyn â chydymffurfio â'r Cynllun, a pholisïau cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch.
- 5.5.4 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod gan unrhyw gyfieithwyr a gyflogir y cymwysterau addas ac y gallant ddarparu gwasanaeth o ansawdd da iawn.
- 5.5.5 Rhoddwyd canllawiau i staff ar ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu mewnol. Mae'r broses ar gyfer trefnu cyfieithu wedi'i chyhoeddi ar Fewnwyd y Gwasanaeth.
- 5.5.6 Bydd yr angen i greu deunydd dwyieithog yn cael ei ystyried wrth gynllunio a phrynu meddalwedd gyfrifiadurol. Lle na ellir addasu systemau cyfrifiadurol cyfredol i fodloni gofynion y Cynllun, caiff yr angen ei fodloni wrth adnewyddu neu wrth ei newid ar y cyfle cyntaf a ddaw.

## 5.6 Caffael, gan gynnwys Gwasanaethau ar ran yr Awdurdod gan Drydydd Partïon

- 5.6.1 Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i unrhyw gyrff neu sefydliadau sy'n cynnal gwasanaethau neu'n darparu nwyddau ar ei ran gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau newydd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu nwyddau (e.e. iwnniform, eitemau hyrwyddo, adeiladau newydd) ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru a lofnodir gyda thrydydd parti neu bartïon, yn cydymffurfio â thelerau'r Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys, heb gyfyngiad, y gwasanaethau a roddir ar gontract.
- 5.6.2 Mae rhaid i'r unigolyn a fydd yn rhoi cychwyn ar y tendr neu gontract am wasanaethau neu nwyddau i'w contractio allan gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cynnwys gwerthusiad o'r goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg a all godi o natur y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu.

- 5.6.3 Mae rhaid i'r unigolyn a fydd yn rhoi cychwyn ar y tendr neu gontract am wasanaethau sicrhau fod adrannau priodol y ddogfen briff tendr yn cael eu cwblhau gan ystyried anghenion y Gymraeg.
- 5.6.4 Drwy osod unrhyw gontract newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau, bydd yr unigolyn a fydd yn rhoi cychwyn ar y tendr neu gontract yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â gwaith ar ran yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. Cyflawnir hyn drwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y Cynllun mewn dogfennau tendro, cytundebau ac amodau contractau a, lle y bo'n briodol, trwy ofyn am ddatganiadau am y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu cyflwyno.
- 5.6.5 Caiff pob trydydd parti sy'n ymgymryd â gwaith, neu'n dangos diddordeb o ran ymgymryd â gwaith ar ran yr Awdurdod, daflen canllawiau sy'n amlinellu prif bwyntiau'r Cynllun ac yn darparu manylion cyswllt petai angen unrhyw gyngor arall.
- 5.6.6 Rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi cychwyn ar y contract fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg fel y nodwyd yn y cytundeb yn rhan o'r trefniadau monitro safonol.

## 5.7 Gweithio mewn Partneriaeth

- 5.7.1 Mewn achosion pan fydd yr Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner er mwyn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd, bydd gwneud pob agwedd ar y gwasanaeth hynny ar gael yn ddwyieithog yn rhan o'r trefniant a rhoddir pob cymorth posibl er mwyn eu galluogi i wneud hynny. Mae aelodau staff sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth mewn mentrau partneriaeth a gweithgareddau i wneud cais bod Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn cael blaenoriaeth. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylai'r Cynllun Iaith Gymraeg cryfaf ymhlith y sefydliadau partner gael blaenoriaeth.

## 5.8 Monitro Gweithredu'r Cynllun

- 5.8.1 Bydd yr Awdurdod yn monitro pa mor dda y mae'n bodloni ei ymrwymiad i weithredu'r Cynllun drwy ddefnyddio amrywiaeth o systemau monitro a fydd yn cynnwys dangosyddion perfformiad lleol, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, adroddiadau i uwch reolwyr, y Prif Swyddog Tân ac Aelodau'r Awdurdod Tân.
- 5.8.2 Bydd yr Awdurdod yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwyir gan y Bwrdd sy'n disgrifio'r datblygiadau o ran gweithredu'r mesurau yn y Cynllun ac yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a dderbynnir oddi wrth y cyhoedd. Bydd copi o'r adroddiad hwn ar gael i aelodau'r cyhoedd edrych arno ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub ac ar wefan y Gwasanaeth.
- 5.8.3 Gall unrhyw aelod o staff anfon unrhyw bryderon, awgrymiadau neu sylwadau ynglŷn â gweinyddu neu fonitro'r Cynllun at ei reolwr llinell, a fydd yn ei dro yn anfon y mater ymlaen at Swyddog yr Iaith Gymraeg.

- 5.8.4 Bydd Swyddog Cydymffurfio'r Awdurdod yn sicrhau nad yw unrhyw gam a fwriedir neu a gymerir o dan y Cynllun hwn yn mynd yn groes i unrhyw ddeddf neu drefn gyfreithiol.

Swyddog Cydymffurfio'r Awdurdod yw:

Prif Swyddog Cynorthwyol Cymorth Corfforaethol  
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Parc Busnes Forest View  
Llantrisant, CF72 8LX

- 5.8.5 Hysbysir aelodau eraill o'r staff, contractwyr, asiantau a gyflogir gan yr Awdurdod a'r cyhoedd ynglyn â phwy yw Swyddog Cydymffurfio yr Awdurdod.
- 5.8.6 Bydd monitro gweithredu'r Cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus a bydd yn ymestyn i'r rheiny sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod.

## 5.9 Cyhoeddi Gwybodaeth

- 5.9.1 Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol yn ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd:
- yr amser a gymer i ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg
  - canran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle nodir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol
  - nifer a natur cwynion ynghylch darpariaeth gwasanaeth iaith Gymraeg neu ei ddiffyg
- 5.9.2 Os nad yw safonau cyhoeddedig yn cael eu bodloni, bydd yr adroddiad yn esbonio'r rhesymau am hyn ac yn nodi'r camau y bydd yr Awdurdod yn cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

## 6. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

### 6.1 Gwella Gwasanaeth

- 6.1.1. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd y rôl gall aelodau'r cyhoedd ei chwarae wrth fynd ati i wella'n barhaus. Drwy gynnal digwyddiadau i randdeiliaid o leiaf unwaith y flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ceisio cysylltu ag unigolion sy'n siarad Cymraeg ac yn dysgu, ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau ieuencid, a phob grwp neu sefydliad cymunedol a diwylliannol Cymraeg arall.
- 6.1.2 Drwy ddatblygu'r cysylltiadau cymunedol cadarn hyn mae'r Awdurdod yn wir gobeithio y bydd siaradwyr Cymraeg, dysgwyr, grwpiau a sefydliadau a phobl nad ydynt yn siarad yr iaith ond sydd â diddordeb ynddi, yn cynorthwyo'r Awdurdod wrth ddatblygu ffyrdd o wella ansawdd ac ystod y gwasanaethau a gynnigir yn Gymraeg.
- 6.1.3 Mae'r Awdurdod yn croesawu awgrymiadau oddi wrth y cyhoedd ynghylch gwella ei Gynllun iaith Gymraeg. Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud awgrym ar gyfer gwelliant wneud hynny drwy ysgrifennu, drwy e-bost neu dros y ffôn i'r Swyddog Iaith Gymraeg neu i'r Prif Swyddog Tân.

## 7. Cwynion

- 7.1.1 Mae'r Awdurdod yn croesawu cwynion gan y cyhoedd ynghylch diffyg darpariaeth o ran gwasanaethau iaith Gymraeg, neu safon anfoddhaol gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn edrych ar gwynion gan y cyhoedd fel offeryn gwerthfawr yn y broses hunanasesu.
- 7.1.2 Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am ddelio â chwynion oddi wrth y cyhoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau eu hadran, yn unol â gweithdrefn gwyno'r Awdurdod.
- 7.1.3 Pan fydd gwybodaeth am gwynion yn cael eu cofnodi ar y gofrestr ganolog byddant yn cynnwys y wybodaeth orfodol ganlynol:
- Cadarnhad o ddewis iaith yr achwynydd - Cymraeg, Saesneg neu Arall, a
  - Chod neu bennawd penodol ar gyfer pob 'cwyn ynghylch gwasanaeth Cymraeg/ y Cynllun iaith Gymraeg'
- 7.1.4 Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddus ynghylch cwynion (sylwadau a chanmoliaeth) yn nodi'n eglur fod croeso i'r cyhoedd gyflwyno eu barn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## 8. Cyhoeddusrwydd

- 8.1 Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi ei wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, i'w weithwyr, cyrff sy'n bartneriaid ac asiantau trydydd parti yn barhaus fel bod cyfleoedd yn codi, gan sicrhau bod pobl sy'n ymdrin â'r Awdurdod yn ymwybodol o'r Cynllun.
- 8.2 Mae'r Cynllun ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan y Gwasanaeth ac ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ceir copïau caled ar gais drwy gysylltu â Swyddog yr Iaith Gymraeg ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- 8.3 Mae'r Awdurdod yn rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau Cymraeg newydd wrth iddynt gael eu cyflwyno.

## Atodiad A - Amserlen ar Gyfer Gweithredu Mesurau

		Dyddiad Targed
<b>2. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau</b>		
2.1.6	Datblygu crynodeb o'r Cynllun Iaith ar gyfer staff	31.03.11
<b>2.3 Safonau Ansawdd</b>		
2.3.3	Cynnal arolwg siopwr cudd	31.12.10 31.12.11 31.12.12
<b>3. Delio â'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith</b>		
3.2.4	Dynodi wyth swydd yn yr Ystafell Reoli Tân fel Cymraeg hanfodol	31.03.13
<b>4. Wyneb Cyhoeddus yr Awdurdod</b>		
4.3.1	Rhaglen dreigl i ailosod arwyddion uniaith presennol	31.03.13
<b>5. Gweithredu a Monitro'r Cynllun</b>		
5.1.3	Datblygu polisi i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol	31.03.12
5.8.2	Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith	30.06.10 30.06.11 30.06.12 30.06.13